



Ein cyf/Our ref SF/CS/2027/15

At: Aelodau Arweiniol Cynllunio
cc: Prif Swyddogion Cynllunio

10 Rhagfyr 2015

Annwyl Gyfaill,

Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yn gosod dyletswydd ar bob un ohonom i sicrhau ein bod yn symud tuag at gymdeithas arloesol, gynhyrchiol, carbon isel, sy'n cydnabod cyfyngiadau'r amgylchedd byd-eang ac sy'n defnyddio adnoddau mewn ffordd effeithlon. I gefnogi hyn, yn fy mhapur diweddar, Twf Gwyrdd Cymru: Ynni Lleol, amlinellais y camau y byddaf yn eu cymryd i annog rhagor o bobl i ymgymryd â phrosiectau o safbwynt ynni adnewyddadwy a charbon isel ar raddfa fach a chanolig.

Mae polisïau cynllunio Llywodraeth Cymru mewn perthynas â datblygiadau ynni adnewyddadwy, a welir ym Mhennod 12 o Bolisi Cynllunio Cymru, yn egluro sut y dylai'r system gynllunio ein helpu i newid i fod yn gymdeithas carbon isel. Cafodd y polisïau hynny eu diwygiwyd yn 2011. Mae Polisi Cynllunio Cymru yn datgan y dylai'r awdurdodau cynllunio lleol hwyluso'r gwaith o ddatblygu pob math o ynni adnewyddadwy a charbon isel drwy ystyried y cyfraniad y gall eu hardal ei wneud; creu polisïau ar gyfer y cynllun datblygu sy'n sicrhau bod modd gwneud y cyfraniad hwnnw; a sicrhau bod penderfyniadau a wneir ynghylch rheoli datblygu yn gydnaws â rhwymedigaethau cenedlaethol a rhyngwladol o ran newid yn yr hinsawdd. Mae hynny'n cynnwys cyfrannu at dargedau a dyheadau o ran ynni adnewyddadwy.

Ers cyhoeddi 'Ynni Adnewyddadwy – Pecyn Cymorth ar gyfer Cynllunwyr' yn 2010, rwy'n falch o ddweud bod nifer o awdurdodau cynllunio lleol wedi cynnal Aseidiadau Ynni Adnewyddadwy wrth gasglu tystiolaeth er mwyn llunio'r Cynlluniau Datblygu Lleol. Fodd bynnag mae'n siomedig gweld nad oes unrhyw un o'r Cynlluniau Datblygu Lleol yng Nghymru wedi cymryd canlyniadau'r Aseidiadau Ynni Adnewyddadwy a llunio polisïau lleol (gan gynnwys dyraniadau neu ardaloedd chwilio) ar gyfer cynlluniau ynni adnewyddadwy neu dechnolegau carbon isel ar raddfa awdurdod lleol (5MW - 25MW).

Byddai dynodi ardaloedd o'r fath yn dangos arweiniad ar lefel leol; yn rhoi sicrwydd i'r diwydiant ynni adnewyddadwy fedru gwneud penderfyniadau ynghylch buddsoddi; a, drwy broses ymgynghori'r Cynllun Datblygu Lleol byddai'n rhoi llais i gymunedau o safbwynt lleoli datblygiadau ynni adnewyddadwy. Drwy ddynodi'r ardaloedd hyn, gellir llywio datblygiadau i'r lleoliadau mwyaf priodol. Mae Llywodraeth Cymru wedi dilyn y dull gweithredu hwn ar gyfer prosiectau ynni gwynt strategol drwy'r Ardaloedd Chwilio Strategol yn TAN8. Rwyf yn

disgwyl i'r awdurdodau cynllunio lleol ddilyn yr un dull gweithredu rhagweithiol ar gyfer pob ffurf ar gynhyrchu ynni adnewyddadwy a charbon isel.

Yn ddiweddar, gwnaeth Llywodraeth Cymru gyhoeddi fersiwn ddiwygiedig o'r Pecyn Cymorth ar Ynni Adnewyddadwy ar gyfer Cynllunwyr. Mae'r Pecyn Cymorth wedi'i ddiweddarau, ac yn cynnwys adran newydd er mwyn i awdurdodau cynllunio lleol asesu'r potensial ar gyfer datblygiadau ffermydd solar yn eu hardaloedd. Gellir defnyddio'r dull gweithredu hwn, ynghyd â'r asesiadau helaeth o'r dirwedd sydd eisoes yn cael eu cynhyrchu fel rhan o dystiolaeth y Cynlluniau Datblygu Lleol, i nodi polisiau ar ddatblygiadau ynni adnewyddadwy mewn Cynlluniau Datblygu. Gellir dynodi'r ardaloedd hynny ar sail blaenoriaethau lleol o ran ynni adnewyddadwy a chan ystyried y gallu i wireddu'r cynlluniau hynny. Dylid gwneud hynny gan ymgynghori â pherchnogion tir a'r diwydiant ynni adnewyddadwy a byddwn yn disgwyl i hwythau hefyd gymryd rhan yn y broses o nodi'r safleoedd mwyaf priodol.

Mae'r Pecyn Cymorth diwygiedig yn rhoi cyngor ynghylch troi'r dystiolaeth yn bolisiau. Rwyf wedi rhoi cyfarwyddyd i'm swyddogion roi sylw arbennig i'r mater hwn pan fydd Cynlluniau Datblygu Lleol yn cael eu hanfon at Lywodraeth Cymru am sylwadau.

Mewn perthynas â TAN8, hoffwn eich atgoffa o'r angen i sicrhau eich bod yn cwrdd â'n capasiti ar gyfer yr holl ardal wrth ichi fireinio ffiniau'r Ardaloedd Chwilio Strategol mewn Cynlluniau Datblygu Lleol. Ar ôl mireinio'r ffiniau mewn Cynllun Datblygu Lleol, ni fydd ffermydd gwynt sydd y tu allan i Ardaloedd Chwilio Strategol y cynllun yn cyfrif tuag at y gapasiti cyffredinol yr Ardaloedd Chwilio Strategol. Felly dylid gofalu bod y ffiniau sydd wedi'u mireinio'n lleol yn cael eu dangos yn gywir yn y Cynlluniau Datblygu Lleol, gan ystyried ffermydd gwynt sydd eisoes yn bodoli neu y gwyddys amdanynt.

Mae'n bwysig bod y system gynllunio yn nodi ac yn diogelu ardaloedd sydd â photensial ar gyfer cynhyrchu ynni adnewyddadwy ar gyfer y tymor hir, ni waeth pa benderfyniadau tymor byr a wneir gan Lywodraeth y DU ynghylch cymorth ariannol a threfniadau rheoleiddio.

Yn gywir,



Carl Sargeant AC
Y Gweinidog Cyfoeth Naturiol